Polisi Gwrth-fwlio

Ysgol Bodhyfryd

Cymeradwyaethau	
Cymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu	
Cadeirydd y Llywodraethwyr	
Dyddiad adolygu gan y Corff Llywodraethu	

Rhesymeg

Mae Ysgol Bodhyfryd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth ac amgylchedd cynhwysol a chefnogol i'w phlant a'i staff ac mae'n cadarnhau hawliau unigolion i gael eu trin yn deg a chyda pharch. Rydym yn cydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau bwlio yw darparu awyrgylch cadarnhaol o ofalu a chyfeillgarwch, trwy ethos yr ysgol a'n gwerthoedd ysgol allweddol. Dylai pob plentyn ac aelod o staff Ysgol Bodhyfryd gael ei werthfawrogi a gallu dysgu a gweithio heb bryder nac ofn o fwlio.

Nodau

Mae bwlio yn annerbyniol yn Ysgol Bodhyfryd ac felly ein nod yw:

- datblygu ethos ysgol lle mae bwlio'n cael ei ystyried yn annerbyniol a lle mae gan bawb gyfrifoldeb i fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod bwlio'n cael ei herio a'i adrodd;
- darparu amgylchedd diogel lle gall pawb ddysgu a gweithio heb bryder, sarhad, aflonyddwch, gormes neu gamdriniaeth;
- ymateb yn effeithiol i unrhyw ddigwyddiadau bwlio a allai ddigwydd;
- sicrhau bod pob plentyn, rhiant, staff, llywodraethwr ac eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn ymwybodol o'n gwrthwynebiad i fwlio ac yn gwybod y cymerir camau priodol os bydd bwlio yn digwydd;
- sicrhau bod pawb yn cymryd cyfrifoldeb am atal a dileu bwlio yn ein hysgol.

Grwpiau Agored i Niwed

Yng nghymuned ein hysgol mae gennym nifer o ddisgyblion a allai gael eu hystyried yn fwy agored i fwlio ar sail y canfyddiad eu bod yn wahanol i eraill. Gall y ffactorau hyn sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed gynnwys hil ac ethnigrwydd, bregusrwydd emosiynol, Saesneg fel iaith ychwanegol ac anghenion cyfathrebu, anabledd, anghenion dysgu a phlant sy'n derbyn gofal. Mae monitro'n ofalus yn sicrhau bod y plant hyn yn ddiogel bob amser ac mae'r UDA yn adolygu unrhyw amgylchiadau neu anghenion penodol sy'n newid.

Beth yw Bwlio?

Rydym yn cydnabod y gall canfyddiadau o'r hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad bwlio amrywio o un unigolyn i'r llall ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd diffiniad cymuned ysgol gyfan. Anaml iawn y mae bwlio yn ddigwyddiad sengl ac mae'n tueddu i fod yn gasgliad o lawer o ddigwyddiadau bach, y gall pob un ohonynt ymddangos yn ddibwys pan gânt eu hystyried ar wahân ac allan o'u cyd-destun.

Mae bwlio fel arfer:

- Yn rhagfwriadedig a bwriadol
- Yn cael ei wneud gan unigolyn neu grŵp
- Yn ymddygiad sydd â'r nod o achosi niwed
- Heb ei ysgogi ac yn ailadrodd dros amser
- Yn dod o safle canfyddedig o bŵer
- Yn achosi niwed corfforol neu seicolegol i'r dioddefwr/dioddefwyr
- Yn ymddygiad bwriadol neu fygythiol
- Yn ailadrodd dros gyfnod o amser
- Yn anodd i'r rhai sy'n cael eu bwlio amddiffyn eu hunain.

Fel cymuned, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i egluro a datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad bwlio. Mae ein diffiniad cyffredin yn datgan ein bod yn credu mai bwlio yw, **"Ymddygiad**

bygythiol a/neu ddifrïol parhaus (naill ai ar lafar, yn gorfforol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol) sy'n digwydd yn fwriadol gan unigolyn neu grŵp o bobl gyda'r bwriad o wneud niwed i unigolyn arall neu sy'n cael yr effaith honno".

Mae ein dealltwriaeth o fwlio a'r strategaethau rydym yn eu mabwysiadu i'w atal rhag digwydd yn cael proffil uchel yn yr ysgol drwy werthoedd ein hysgol a'r ffordd y maent yn parhau i fod yn rhan gynhenid o fywyd beunyddiol yr ysgol, trwy wasanaethau ysgol, trafodaethau dosbarth a sesiynau ABGI, darpariaeth gwricwlaidd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal, cynnwys y Cyngor Ysgol a thrwy ddiweddaru a chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a llywodraethwyr.

Gall bwlio fod ar sawl ffurf, ond y prif fathau yw:

- corfforol – er enghraifft, taro, cicio, cymryd eiddo;
- seiberfwlio (gweler y Polisi E-ddiogelwch);
- ar lafar – er enghraifft, galw enwau, sarhau, sylwadau angharedig neu wahaniaethol;
- cymdeithasol – er enghraifft, lledaenu straeon cas am rywun, eithrio rhywun o grwpiau cymdeithasol, poenydio, syllu, ystumiau bygythiol;
- cyfuniad o'r uchod – er enghraifft cribddeiliaeth (gorfodi rhywun i ildio arian neu eiddo) neu frawychu (gwneud i rywun deimlo'n ofnus yn sgil bygythiadau).

Gall unrhyw un o'r rhain hefyd fod â chyd-destunau sy'n gwahaniaethu ar sail hil, ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ADY neu anabledd. Gall ymddygiadau eraill hefyd ddigwydd sy'n achosi niwed (weithiau'n anfwriadol) i unigolion heb fod yn bwlio. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu eglurder ynghylch y gwahaniaeth hwn i sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei ddatrys yn briodol ac yn effeithiol. Mae enghreifftiau o'r ymddygiad hwn yn cynnwys:

• niwed a achoswyd yn ddamweiniol;
• anghydfodau bychain;
• anawsterau cyfeillgarwch achlysurol;
• colli tymer o bryd i'w gilydd, ymateb yn ddig neu'n gorfforol i ddigwyddiad;
• pryfocio/gwneud jôcs lle nad oes bwriad i dramgwyddo unigolyn arall.

Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu datrys gan ddefnyddio dull adferol, yn unol â'n polisi ymddygiad lle gall pob parti dan sylw drafod y digwyddiad er mwyn dod i gytundeb sy'n dderbyniol i bob unigolyn sydd ynghlwm ac sy'n eu galluogi i dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain ac ystyried sut i osgoi'r un sefyllfa yn y dyfodol.

Seiberfwlio

Mae gan gymuned ein hysgol ymwybyddiaeth glir o'r risgiau a berir i ddisgyblion o seiberfwlio ac mae'n cydnabod y cyfrifoldeb sydd gennym ar y cyd i'w atal. Rydym yn cydnabod y gall seiberfwlio:

• ddigwydd mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys trwy ffonau symudol, gwefannau cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd;
• digwydd yn ddienw a/neu gan bobl sy'n gwbl anhysbys i'r dioddefwr;
• cael ei gyflawni gan bobl o bob oed;
• digwydd ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos;
• bod yn anfwriadol weithiau, e.e. derbyn neges ar gam.

Er mwyn atal seiberfwlio bydd yr ysgol yn:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth yn rheolaidd o risgiau seiberfwlio a defnyddio technoleg yn ddiogel trwy wasanaethau rheolaidd a gweithgareddau hyrwyddo gweithredol gan Arweinwyr Digidol corff disgyblion Ysgol Bodhyfryd drwy gydol y flwyddyn;
- sicrhau bod y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn dysgu plant sut i adnabod seiberfwlio a sut i ddefnyddio TGCh yn ddiogel trwy linyn e-ddiogelwch/dinasyddiaeth benodol ac fel rhan annatod o unrhyw addysgu a dysgu ar gyfer TGCh;
- sicrhau bod unrhyw bolisïau cysylltiedig fel y polisi E-ddiogelwch, gan gynnwys y "Cytundeb Defnydd Derbyniol" yn cyfeirio'n benodol at y polisi gwrth-fwlio.
- os bydd unrhyw ddigwyddiadau neu amheuaeth o seiberfwlio, ymdrinnir â nhw yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn a byddant yn cael eu cofnodi gan y Pennaeth.

Hawliau a Chyfrifoldebau

Mae gan bob plentyn ac aelod o staff yn Ysgol Bodhyfryd yr hawl i:

- deimlo'n ddiogel rhag cam-drin geiriol, meddyliol a chorfforol ar ei ffordd i'r ysgol ac oddi yno a thra yn yr ysgol;
- cael ei gyfeirio ato yn ôl ei enw cywir;
- peidio â chael ei deimladau wedi'u brifo am ei ymddangosiad neu'r ffordd y mae'n swnio;
- peidio â bod yn destun galw enwau difrïol, sarhad, jôcs hiliol, trafodaethau, gwawd a chamdriniaeth.

Cyfrifoldeb pob plentyn (os yw'n gallu) ac aelod o staff Ysgol Bodhyfryd yw:

- cyfathrebu â rhywun os eir yn groes i unrhyw un o'i hawliau;
- cyfathrebu â rhywun os yw'n tystio i rywun fynd yn groes i hawliau rhywun arall;
- ceisio atal camdriniaeth a cheisio gwella bywyd rhywun yr aethpwyd yn groes i'w hawliau

Strategaethau i Atal Bwlio

Mae pawb yn gyfrifol am sicrhau nad yw bwlio'n cael ei oddef yn Ysgol Bodhyfryd. Fel cymuned, rydym yn ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo a gweithredu'r strategaethau mwyaf effeithiol i atal bwlio. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys:

- hyrwyddo ethos ysgol gref sy'n annog parch ac ystyriaeth i bob unigolyn drwy dair rheol aur, sef bod yn Barod, yn Barchus ac yn Ddiogel, wedi'u hategu gan ein Gwerthoedd Cristnogol sy'n cael eu hatgyfnerthu mewn gwasanaethau, ymarfer yn yr ystafell ddosbarth a darpariaeth a goruchwyliaeth amser chwarae;
- gwasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau eraill sy'n hyrwyddo ein gwerthoedd craidd yn rheolaidd ac sy'n rhoi proffil uchel i fentrau gwrth-fwlio (gan gynnwys e-ddiogelwch);
- sicrhau bod ein cwricwlwm yn adlewyrchu ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y rhaglenni astudio ar gyfer gwahanol feysydd pwnc, tra'n mynd i'r afael â ffocws gwrth-fwlio yn fwy penodol drwy linyn e-ddiogelwch/dinasyddiaeth y cwricwlwm
- sicrhau bod yr holl staff, staff addysgu yn ogystal â staff nad ydynt yn addysgu, yn ymwybodol o'r grwpiau neu unigolion agored i niwed hynny yn yr ysgol drwy gyfathrebu rheolaidd.
- mabwysiadu dull adferol tuag at ymddygiad (wedi'i rannu gyda'r holl staff a rhieni) sy'n annog datrys gwrthdaro o fewn cyd-destun parch a datblygu ymwybyddiaeth o hunangyfrifoldeb sy'n atal ailadrodd ymddygiad amhriodol;
- monitro ymddygiad yn ofalus ac ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon i sicrhau y gellir nodi a datrys unrhyw faterion yn gyflym;
- hyrwyddo hunan-barch a hyder sydd eu hangen ar blant i deimlo'n hyderus i ofyn am help os oes angen;
- cynllunio ac arwain sesiynau ABGI dynodedig o fewn dosbarthiadau i gwmpasu'r cwricwlwm ABGI neu ddelio ag unrhyw faterion penodol sy'n codi;

Rhoi gwybod am fwlio/pryderon am fwlio

Rydym wedi ymrwymo i gymryd unrhyw achosion o fwlio neu amheuaeth o fwlio o ddifrif. Cyfrifoldeb unrhyw aelod o'n cymuned yw rhoi gwybod am bryderon sydd ganddo am fwlio neu amheuaeth o fwlio, gan gynnwys:

- athrawon dosbarth;
- goruchwylwyr amser chwarae a ddylai roi gwybod i athrawon am bryderon;
- staff cymorth amser cinio a ddylai roi gwybod i athrawon am bryderon;
- plant, a ddylai roi gwybod am bryderon i oedolyn ar y maes chwarae, eu hathro dosbarth neu aelod o'r UDA;
- rhieni, a ddylai dderbyn cydnabyddiaeth ar unwaith o'u pryder gan aelod o staff yr ysgol

Ymateb i fwlio/pryderon am fwlio

Bydd unrhyw bryderon sy'n cael eu hadrodd yn cael eu trin o ddifrif ac ar unwaith er mwyn penderfynu ar y dull mwyaf effeithiol o ddatrys y materion a nodwyd. Bydd yr union gamau gweithredu yn amrywio yn ôl y sefyllfa, ond y prif amcanion yw nodi digwyddiadau o fwlio, eu gwneud yn agored, eu cofnodi a chytuno ar strategaethau i helpu i ddatrys y broblem. Ym mhob achos o fwlio sy'n cael ei arsylwi, ei ddatgelu neu ei amau, mae'n bwysig sicrhau:

- y bydd pryderon yn cael eu gweithredu ar unwaith ar y diwrnod y cânt eu hadrodd;
- ei bod yn amlwg bod ymddygiad y bwli yn annerbyniol a bod rhaid i'r bwlio ddod i ben;
- y bydd pryderon yn cael eu hadrodd i'r Pennaeth neu i aelod o'r UDA;
- bod y sawl sy'n destun yr ymddygiad bwlio yn teimlo'n ddiogel a rhoddir cyfle iddo rannu ei bryderon yn llawn gydag oedolyn;
- y bydd cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei chasglu a'i chofnodi am unrhyw ddigwyddiadau, gan gynnwys gan unrhyw dystion posibl;
- bod y derbynnydd yn sicr y bydd yn cael ei gefnogi a'i gadw'n ddiogel;
- y bydd y manylion yn cael eu cofnodi'n ofalus, a hynny ar ffurf electronig
- bod yr unigolion dan sylw yn cael eu hysbysu'n glir o'r camau gweithredu/strategaethau a roddwyd ar waith i'w cadw'n ddiogel;
- bydd unrhyw gymorth pellach sydd ei angen yn cael ei nodi a'i roi ar waith
- caiff rhieni eu hysbysu a'u gwneud yn ymwybodol o'r strategaethau a roddwyd ar waith i ddatrys y sefyllfa;
- cytunir ar gyfnod monitro i sicrhau bod y sefyllfa wedi'i datrys;
- bydd y Pennaeth neu aelod o'r UDA yn siarad â'r unigolyn/unigolion sy'n cyflawni'r ymddygiad bwlio a bydd unrhyw ganlyniadau priodol yn cael eu penderfynu a'u rhoi ar waith;
- gellir nodi cymorth pellach i'r cyflawnwr i'w alluogi i dderbyn cyfrifoldeb am ei weithredoedd a sicrhau nad yw ei ymddygiad yn digwydd eto;
- bydd rhiant/rhieni y cyflawnwr yn cael gwybod am y digwyddiadau ac yn cymryd rhan yn y drafodaeth am ganlyniadau a chefnogaeth bellach yn ôl yr angen;
- bydd aelodau eraill o'r tîm staff yn cael gwybod fel y bo'n briodol i sicrhau y gallant fonitro'r sefyllfa a bod yn wyliadwrus er mwyn atal unrhyw achosion pellach o'r ymddygiad;
- bydd sefyllfaoedd nad ydynt wedi'u datrys yn foddhaol ym marn rhiant neu unrhyw aelod staff dan sylw yn cael eu cyfeirio at y Pennaeth neu lywodraethwr os yw'n briodol;
- mae unrhyw fwlio rhwng oedolion yn cael ei adrodd i berson priodol. Gall hynny fod yn Bennaeth, yn aelod o'r UDA neu lywodraethwr.

Bydd yr holl ddigwyddiadau a adroddir yn cael eu trin yn deg ac yn gyson yn unol â pholisi Ymddygiad yr ysgol a chydag ymrwymiad llwyr y gymuned ysgol gyfan.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae’r Pennaeth yn gyfrifol am:

• fonitro bwlio a'r Polisi Gwrth-fwlio yn gyffredinol yn yr ysgol;
• ymdrin ag achosion o fwlio rhwng oedolion;
• dilyn unrhyw sefyllfaoedd nad ydynt wedi'u datrys yn foddhaol ym marn aelod o’r UDA, y rhiant neu unrhyw aelod o staff cysylltiedig.

Mae aelodau’r UDA yn gyfrifol am:
• gadw cofnodion o unrhyw achosion o fwlio a arsylwyd, a ddatgelwyd neu amheuaeth o fwlio;
• rhoi gwybod i'r aelod o'r UDA sy'n gyfrifol am gefnogi ei ddosbarth o unrhyw achosion o fwlio a arsylwyd, a ddatgelwyd neu amheuaeth o fwlio;
• cysylltu â rhieni ynglŷn â phryderon am fwlio;
• gweithredu unrhyw gosbau neu raglenni rheoli ymddygiad y cytunwyd arnynt gydag aelod o’r UDA i gefnogi'r dioddefwr i ddatblygu strategaethau ymdopi neu i'r bwli newid ei ymddygiad.

Monitro a Gwerthuso

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro a bydd yr effeithiolrwydd yn cael ei werthuso yng ngoleuni'r nifer o ddigwyddiadau bwlio a gofnodwyd, ymateb staff i ymddygiad bwlio ac unrhyw bryderon plant, staff a rhieni ynghylch bwlio. Mae pob aelod o'r UDA yn gyfrifol am ymateb i achosion o fwlio ac mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb penodol dros sicrhau bod gweithdrefnau yn y polisi hwn yn cael eu dilyn.

Yn Ysgol ******** credwn fod gan bob unigolyn yr hawl i deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu ac i deimlo'n ddiogel rhag ofn o gael ei fwlio. Fel cymuned, rydym i gyd yn rhannu cyfrifoldeb i atal bwlio rhag digwydd ac i herio a delio ag unrhyw ymddygiad bwlio a allai ddigwydd.